Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Gweithdrefn Cyrsiau Byr a Micro-gymwysterau

2025/26

**Cynnwys**

1 Pwrpas y Weithdrefn .......... 2
2 Cwmpas .......... 2
3 Diffiniadau .......... 2
4 Egwyddorion .......... 3
5 Y Broses Gymeradwyo .......... 5
6 Perchnogaeth .......... 5
7 Strwythur .......... 6
8 Sicrwydd Ansawdd .......... 6
9 Casglu Credydau .......... 7
10 Marchnata, Derbyniadau a Gofynion Mynediad .......... 8
11 Asesiad .......... 8
12 Ardystiad .......... 9
13 Cofnodion Terfynol .......... 9
14 Polisïau a Gweithdrefnau Cysylltiedig .......... 9
15 Hygyrchedd .......... 10

## 1 Pwrpas y Weithdrefn

1.1 Nod y brifysgol yw darparu ystod o gyfleoedd dysgu sy'n canolbwyntio ar ennill credydau, a rhai nad ydynt yn canolbwyntio ar ennill credydau, i sefydliadau allanol, myfyrwyr presennol a myfyrwyr y dyfodol, ac unigolion sy'n cefnogi anghenion datblygu'r ardal a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

## 2 Cwmpas

2.1 Mae'r weithdrefn yn cyfeirio at ddatblygiad a gweithrediad cyrsiau byr a micro-gymwysterau. Mae'r brifysgol yn cydnabod y gall dysgu micro-gredydol gynnig llwybr modiwlaidd amgen a hygyrch i fyfyrwyr tuag at gyflawni dyfarniad rhaglen dilys, fodd bynnag, ni fydd modiwlau micro-gredydol ar eu pen eu hunain yn arwain at ddyfarniad.

2.2 Mae'r weithdrefn hon yn cyd-fynd â Datganiad Nodweddion yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) ar gyfer micro-gymwysterau.

## 3 Diffiniadau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Cwrs byr | Cwrs byr yw'r term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio bob cwrs neu fodiwl a gynigir ar sail unigol, nad ydynt yn ffurfio dyfarniad ar eu pen eu hunain. Gall y rhain fod yn gymwysterau sy'n ennill credydau neu'n gymwysterau nad ydynt yn ennill credydau.<br><br>Ni all cyrsiau byr nad ydynt yn ennill credydau gael eu defnyddio fel sail ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol (CDB) tuag at ddyfarniad Prifysgol Wrecsam.<br><br>Mae'r holl gyrsiau byr yn galluogi myfyrwyr i gyrchu a gweithio mewn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ystyried (cyd)gyflawni drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cam datblygu.<br><br>Gellir ystyried cyrsiau byr sy'n ennill credydau ar gyfer CDB tuag at ddyfarniad Prifysgol Wrecsam. Cytunir ar hyn cyn cymeradwyaeth ac fe'i nodir ar y ffurflen SMC1. |

| Term | Diffiniad |
| --- | --- |
| Micro-gymhwyster | Micro-gymwysterau:<br><br>Cymwysterau bach sy'n ennill credydau ac yn seiliedig ar ganlyniad. Er mwyn cyflawni micro-gymhwyster, caiff dysgwyr eu hasesu i arddangos eu bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu. Dylai micro-gymwysterau fod yn faes dysgu pwrpasol wedi'i ddylunio i alluogi myfyrwyr i ddewis dyfarniadau sy'n addas ar gyfer eu diddordebau personol a'u hanghenion cyflogaeth presennol neu ar gyfer y dyfodol o fewn cyd-destun dysgu gydol oes<br><br>Ennill credydau yn erbyn lefel gydnabyddedig o;r Fframweithiau Cymwysterau yn ddarostyngedig i fecanweithiau sicrwydd ansawdd safonol<br><br>Nid yw'n ddyfarniad yn ei hun yn y Fframweithiau Cymwysterau AU, ac ni ddylai fod yn fwy na 60 credyd, nac yn llai na 20 credyd fel arfer.<br><br>Yn seiliedig ar ganlyniad gyda chanlyniadau dysgu cyffredinol y bwriedir, y dylid asesu bob un ohonynt.<br><br>Mae'r holl ficro-gymwysterau yn galluogi myfyrwyr i gyrchu a chyflwyno gwaith mewn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ystyried (cyd)gyflawni drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cam datblygu.<br><br>Gellir ystyried micro-gymwysterau ar gyfer CDB tuag at ddyfarniad Prifysgol Wrecsam. Cytunir ar hyn cyn cymeradwyaeth ac fe'i nodir ar y ffurflen SMC1. |
| Ffurflen Cyrsiau Byr a Micro-gymwysterau (SCM1) | Y ffurflen y mae cynigwyr yn ei chwblhau er mwyn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cwrs byr neu ficro-gymhwyster newydd. |

## 4 Egwyddorion

- Bydd myfyrwyr sy'n ymgymryd â micro-gymhwyster yn cael trawsgrifiad yn unig.
- Gall myfyrwyr sy'n ymgymryd â chwrs byr fod yn gymwys ar gyfer y canlynol:
    - Tystysgrif Presenoldeb Prifysgol Wrecsam (ar gyfer presenoldeb mewn rhaglen gydnabyddedig ond nad yw'n ennill credydau).
    - Tystysgrif Addysg Parhaus Prifysgol Wrecsam (ar gyfer cwblhau cyrs byr sy'n cynnwys un neu fwy o fodiwlau sy'n ennill credydau yn llwyddiannus).
    - Tystysgrif Broffesiynol Prifysgol Wrecsam (am gwblhau cwrs byr yn llwyddiannus gyda chyfanswm o 40 credyd sydd wedi cael eu harnodi gan gorff proffesiynol, gan

fodloni gofynion addysg a hyfforddiant penodol y corff proffesiynol hwnnw). Mae gwybodaeth bellach ar gael gyda Rheoliadau Academaidd y Brifysgol.

- Cytunir ar hyn cyn cymeradwyaeth ac fe'i nodir ar y ffurflen SMC1.
- Fel yr amlinellir yn y Datganiad Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) ar Nodweddion Micro-gymwysterau, mae angen i ymgeiswyr a'r gwasanaethau mynediad fod yn glir ynghylch y sgiliau a'r dysgu hanfodol priodol ar gyfer lefel dyfarniad y micro-gymhwyster. Mae unrhyw fyfyriwr sy'n astudio micro-gymhwyster yn fyfyriwr Prifysgol Wrecsam llawn a chyfrifoldeb y Brifysgol yw eu hanghenion cymorth, boed o ran sgiliau academaidd neu gymorth llesiant. Mae angen gwneud ystyriaethau tebyg ar gyfer cyrsiau byr sy'n ennill credydau.
- Bydd angen i unrhyw gynnig ar gyfer cwrs byr neu ficro-gymhwyster gynnwys cymeradwyaeth gan yr Adran Gyllid ynghyd â'r costau a'r enillion ymylol cysylltiedig. Fel arfer, byddai'r gweithgareddau i ennill credydau a allai gyfrannu tuag at ddyfarniadau israddedig neu ôl-raddedig yn cael eu sefydlu ar gyfradd arferol y Brifysgol fesul 10 credyd. Fel arfer, byddai'r ffi ar gyfer gweithgareddau eraill yn cynnwys lleiafswm o enillion ymylol o 30% ar ôl cyfrifo costau llawn i gyfrannu at orbenion canolog. Os defnyddir cwrs byr i ddenu Cyllid Rhan Amser Medr, dylid cytuno ar hyn gyda'r Adran Gyllid cyn cymeradwyaeth fel y gall y Brifysgol reoli ei dyraniad.
- Dylai cyrsiau byr ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau penodol a byddant yn cael eu dylunio meewn ymateb i fynd i'r afael ag anghenion datblygiad proffesiynol neu ofynion diwydiant neu ddinesig penodol.
- Rhaid i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gwrs byr neu ficro-gymhwyster sy'n ennill credydau gwblhau'r holl asesiadau gofynnol a chyflwyno asesiad(au) i gael eu hystyried erbyn y dyddiad(au) cau gosodedig perthnasol o fewn blwyddyn academaidd y cofrestriad cychwynnol.
- Disgwylir i dimau academaidd ddarparu marciau/graddau ar gyfer asesiad(au) perthnasol i gael eu cyflwyno a chytundeb arnynt mewn Bwrdd Asesu Prifysgol o fewn blwyddyn academaidd y cofrestriad cychwynnol. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at dynnu'r myfyriwr yn ôl o'r cwrs byr, ac ni fydd credyd nac ardystiad academaidd yn cael ei ddyfarnu.
- Mae'r un broses sicrhau ansawdd yn berthnasol ar gyfer micro-gymwysterau â rhaglen radd nodweddiadol, ac mae gan fyfyrwyr sy'n astudio'r rhaglenni hyn fynediad at yr ystod lawn o wasanaethau Prifysgol Wrecsam.
- Mae gan fyfyrwyr ar fodiwlau sy'n ennill credydau neu ficro-gymwysterau yr hawl i gyflwyno eu hasesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cyrsiau byr sy'n ennill credydau neu ficrogredydau yn cael un cyfle i ail-sefyll, i'w gwblhau cyn y cyfarfod bwrdd nesaf.
- Bydd myfyrwyr yn dilyn prosesau arferol y brifysgol mewn achos o unrhyw bryderon, cwynion neu apeliadau.

- Fel arfer, byddmyfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau byr neu ficro-gymwysterau yn cael eu hystyried yn fyfyrwyr rhan amser.

## 5 Y Broses Gymeradwyo

5.1 Anogir staff yn gryf i gynllunio i'w cynlluniau cwrs byr neu ficro-gymwysterau gael eu cymeradwyo cyn y flwyddyn academaidd nesaf pan fyddant yn cael eu cyflwyno ac i ystyried cyfleoedd ar gyfer datblygu drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.2 Dylid cyflwyno pob cynnig micro-gymhwyster i'r Pwyllgor Datblygu Portffolio Academaidd (APDC) gyda ffurflenni wedi'u cwblhau, yn cynnwys gwybodaeth ariannol.

5.3 Mae cyrsiau byr yn dilyn cymeradwyaeth drwy'r Panel Cymeradwyo Diwygiadau Cwricwlwm (CMAP).

5.4 Ni ellir hysbysebu unrhyw weithgareddau heb gymeradwyaeth flaenorol gan y Pwyllgor.

## 6 Perchnogaeth

6.1 Cyfrifoldeb y cynigydd yw sicrhau bod timau menter a chyfadrannau/rhaglenni wedi cyfathrebu gyda'i gilydd cyn cyflwyno i'r Pwyllgor perthnasol am gymeradwyaeth, i sicrhau cytundeb sefydliadol a rhannu arbenigedd.

6.2 Bydd cyrsiau byr nad ydynt yn ennill credydau yn cael eu rheoli drwy'r adran Menter, a fydd yn gweinyddu marchnata a rheolaeth o'r cyrsiau byr.

6.3 Yn bennaf, mae gweithgareddau Datblygu Proffesiynol sy'n ennill credydau yn bodoli mewn pynciau iechyd, a byddant yn cael eu gweinyddu gan yr adran dderbyniadau.

6.4 Bydd cyrsiau byr a micro-gymwysterau sy'n ennill credydau yn cael eu gweinyddu a'u hysbysebu drwy'r Swyddogion Credydau Cyrsiau Byr/Rhan Amser yn yr adran Recriwtio a Derbyniadau.

6.5 Cyfrifoldeb y tim(au) Academaidd perthnasol yw cyflwyno marciau a graddau asesu i drawsgrifiad neu dystysgrif, ar gyfer cyflwyno i'r tîm Asesu a Dyfarnu. Dylid nodi'n glir yn y cynnig a'r broses gymeradwyo pwy fydd yn gyfrifol am ddarparu marciau asesu. Dylid cynnal yr un safonau ansawdd ym mhob gweithgaredd sy'n ennill credydau â chynigion mwy sylweddol y brifysgol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno marciau yn y ffurf briodol, erbyn y dyddiad cau a nodwyd, a phresenoldeb neu gynrychiolaeth ar fyrddau asesu priodol.

6.6 Trwy eu natur ac yn aml, eu modd digidol o ddarpariaeth, nid fyddai micro-gredydau fel arfer yn cael eu darparu drwy bartneriaid a byddai darpar fyfyrwyr yn cael eu cyfeirio at y Brifysgol.

Pe byddai achos busnes gan bartner, gellid cyflwyno cais i'r Pwyllgor Portffolio Datblygu Academaidd (APDC) ei ystyried.

## 7 Strwythur

7.1 Mae gan y brifysgol yr arferion strwythurol canlynol ar gyfer dysgu micro-gredydol a chyrsiau byr:

| Math | Categorïau | Lleiafswm/Mwyafswm Credydau | Tystysgrif a ddyfarnwyd | Trawsgrifiad a ddarparwyd |
|---|---|---|---|---|
| Tystysgrif Addysg Barhaus | Cyrsiau byrion | 10-60 | Do | Do |
| Tystysgrif Broffesiynol | Cyrsiau byrion | 40-60 | Do | Do |
| Tystysgrif Presenoldeb | Cyrsiau byr yn unig | 0 | Do | Do |
| Enw microgredyd | Micro-gymhwyster | 20-60 credyd | Nac ydy | Do |

7.2 Gellir cael mwy o wybodaeth o fewn y Rheoliadau Academaidd (Cert-A – Cert-F).

## 8 Sicrwydd Ansawdd

8.1 Mae Cyrsiau Byr a Micro-gymwysterau yn ddarostyngedig i'r prosesau sicrhau ansawdd canlynol:

- Dylid cynnal trafodaethau cychwynnol - cyn cyflwyno cwrs byr neu ficro-gymhwyster ar gyfer trafodaethau cymeradwyo gyda chydweithwyr perthnasol i sicrhau bod anghenion cymorth priodol, academaidd a bugeiliol, ar waith. Rhaid cynnwys unrhyw ofynion ychwanegol ar gyfer adnoddau neu amser gwasanaeth proffesiynol o fewn y ffurflen SCM1.

- Cymeradwyaeth gychwynnol - dylid cyflwyno templed Modiwlau Cwrs Byr (SCM1) a manyldeb modiwl, wedi'i lofnodi gan y cymeradwywyr perthnasol a nodir ar y ffurflen a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Datblygu Portffolio Academaidd (APDC) ar gyfer cynnig micro-gredydol neu i'r Panel Cymeradwyo Cwricwlwm a Diwygiadau (CMAP) ar gyfer cymeradwyaeth cynnig cwrs byr.

- Diwygiad - os oes angen newidiadau bydd angen cwblhau'r templed modiwl diwygio cywir ac olrhain newidiadau a wnaed i fanyleb y modiwl. Mae'r broses ddiwygio hefyd yn cael ei llywodraethu gan CMAP. Gellir canfod rhagor o wybodaeth am y broses ddiwygio o fewn y Weithdrefn Rhaglen Cylch Bywyd.

- Gwaharddiad / tynnu'n ôl – pan fydd penderfyniad wedi cael ei wneud i wahardd / tynnu cwrs byr neu ficro-gymhwyster yn ôl, rhaid rhoi gwybod i'r Tîm Ansawdd a Rheoliadau drwy anfon e-bost i quality@wrexham.ac.uk a fydd yn diweddaru'r rhestr ganolog o gyrsiau byr a micro-gredydol a gynigir gan Brifysgol Wrecsam i sicrhau ei bod yn cael ei chynnal, ac y gellir diweddaru'r system cofnodion myfyrwyr SITS yn ôl yr angen.

- Mae gan fyfyrwyr yr hawl i gyflwyno gwaith a chyrchu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Dylid cael goruchwyliaeth arholwr allanol ar gyfer unrhyw gyrsiau byr sy'n cynnig credydau a gyflwynir ar Lefel 5 neu uwch.

- Mae gofyn am arholiad allanol ar gyfer micro-gymwysterau ar unrhyw lefel.

- Dylai darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol fod yn rhan o ddylunio, darparu, gwerthuso a gwella mirco-gymwysterau a chyrsiau byr.

## 9 Casglu Credydau

9.1 Mae cyflwyniad arfaethedig yr Hawl i Ddysgu Gydol Oes yn rhoi cyfrifoldeb ar brifysgolion i fod yn addasadwy i anghenion dysgu rhan amser. Mae'r Brifysgol yn cynnig cyfleoedd rhan amser i fyfyrwyr a'r cyfle i ddechrau ar wahanol lefelau drwy ei gweithdrefn CDB (Cydnabod Dysgu drwy Brofiad Blaenorol).

9.2 Yn unol â Rheoliadau Academaidd y Brifysgol, caniateir CDB hyd at ddau draean o'r rhaglen maent yn gwneud cais amdani yn unig. Cwblheir gweddill y rhaglen ar ôl cofrestru ar y rhaglen drwy gais CDB llwyddiannus, ac o'r pwynt hwn bydd myfyrwyr yn ddarostynedig i'r gofynion rhaglen a ddilyswyd fel a nodir o fewn manyleb y rhaglen. Dylai'r ffurflen cymeradwyaeth Cyrsiau Byr a Microgredydol sefydlu pa raglenni/modiwlau y gellid ystyried CDB ar eu cyfer. Os bydd myfyriwr yn dymuno gwneud cais am CDB ar gyfer credydau a wnaed dros bum mlynedd ynghynt, ymgynghorir â'r tîm rhaglen i ystyried a yw'r astudiaeth yn dal i fod yn gyfredol ar gyfer y rhaglen y mae'n cael ei defnyddio ar ei chyfer.

## 10 Marchnata, Derbyniadau a Gofynion Mynediad

10.1 Dylai gwybodaeth cwrs roi gwybodaeth glir am unrhyw wybodaeth a/neu sgiliau blaenorol fydd eu hangen ar ddysgwr er mwyn llwyddo ar y cwrs. Rhaid i hyn gynnwys beth fydd ei angen i lwyddo ar y cwrs, o ran ymgysylltiad a chyflawniad, sut mae'r micro-gymhwyster yn bodloni anghenion y sector perthnasol neu gyfleoedd dysgu micro-gredydol cysylltiedig â chenhadaeth ddinesig, a p'un a all y rhain gyfrannu tuag at gydnabyddiaeth gydnabyddedig fwy (dysgu blaenorol cydnabyddedig), yn benodol pan fydd y micro-gymhwyster yn rhoi mynediad i raglenni gradd sydd eisoes yn bodoli.

10.2 I gydymffurfio â Fframwaith Micro-gredydol yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd (QAA) ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon, rhaid i'r wybodaeth ganlynol fod yn weledol wrth hyrwyddo a hysbysebu unrhyw ficrogredyd.

- Teitl y micro-gymhwyster
- Pwyntiau credyd
- Lefel
- Deilliannau dysgu bwriadedig (ILOs)
- Targedu'r dysgwr - er enghraifft, p'un a yw'r dyfarniad wedi'i fwriadu ar gyfer datblygiad proffesiynol, datblygiad sgiliau, mynediad at ddyfarniad mwy neu uwch
- Unrhyw gymwysterau neu gyflawniadau hanfodol
- Hyd, os yw'r micro-gymhwyster yn cael ei gynnig fel cwrs astudio
- Modd darpariaeth - ar-lein, wyneb yn wyneb neu gyfunol. Os wyneb yn wyneb, lleoliad y ddarpariaeth
- Oriau o ddysgu cyfeiriedig ac oriau tybiedig dysgu dan arweiniad myfyriwr
- Dull asesu - er enghraifft, prawf, cyflwyniad asesiad neu bortffolio, meistrolaeth a arsylwyd
- Cost
- Unrhyw gydnabyddiaethau, er enghraifft gan PSRB
- Natur ardystiad, fel tystysgrif, trawsgrifiad, bathodyn digidol.

## 11 Asesiad

11.1 Rhaid i'r strategaeth asesu ar gyfer cyrsiau byr a micro-gymwysterau gydymffurfio â'r egwyddorion a sefydlir yn y Polisi Asesu ac maent yn ddarostyngedig i fecanweithiau sicrwydd ansawdd safonol.

11.2 Pan fydd modiwl wedi cael ei gymeradwyo i gael ei ddarparu fel micro-gymhwyster ac yn cyd-fynd â dyfarniad bwriadedig, bydd y rheoliadau perthnasol i gyfleoedd ailsefyll ar gyfer y dyfarniad bwriadedig yn berthnasol. (Cyfeiriwch at Reoliadau Academaidd Israddedig-E10 or TPG-E9).

11.3 Ni fydd myfyrwyr ar gyrsiau byr nad ydynt yn ennill credydau yn cael eu cyflwyno i fyrddau asesu.

11.4 Cyfrifoldeb yr arweinydd cwrs byr sy'n ennilll credydau/micro-gredydol fydd sicrhau bod presenoldeb marciau yn cael ei gofnodi a'i gyflwyno cyn y cyfarfod bwrdd nesaf sydd ar gael yn dilyn dyddiad cau yr asesiad.

## 12 Ardystiad

12.1 Bydd yr holl fyfyrwyr yn derbyn trawsgrifiad o'u canlyniadau ar gyfer pob cwrs byr sy'n ennill credydau a micro-gymwysterau cyn i'r rhain gael eu cadarnhau gan y Bwrdd Asesu.

12.2 Gall myfyrwyr sy'n ymgymryd â chwrs byr fod yn gymwys am dystysgrif, pan fo hyn wedi cael ei adnabod a'i gymeradwyo o fewn y ffurflen cynnig Cwrs Byr/Micro-gymwysterau cychwynnol.

## 13 Cofnodion Terfynol

13.1 Ar ôl cymeradwyo cyrsiau byr sy'n ennill credydau a microgredydau, cyhoeddir dogfennaeth derfynol a mewnbynnir manylion terfynol i'r Gofrestr y Brifysgol ar gyfer Cyrsiau Byr a Micro-gymwysterau, a gynhelir gan y Tîm Ansawdd a Rheoliadau. Yn ogystal, bydd cofnod yn cael ei greu ar system gweinyddu myfyrwyr y Brifysgol (SITS) ar gyfer cyrsiau sy'n ennill credydau a micro-gymwysterau.

## 14 Polisïau a Gweithdrefnau Cysylltiedig

14.1 Mae gan y Brifysgol reoliadau, polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer sicrhau ansawdd safonau academaidd. Dylai'r polisi hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r gweithdrefnau canlynol:

- Rheoliadau Academaidd 25/26
- Polisi Asesu
- Gweithdrefn Cylch Bywyd Rhaglen
- Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol

## 15 Hygyrchedd

15.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol ac sy'n ystyriol o drawma a hynny o ran dyluniad a gweithrediad ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os oes angen addasiadau arnoch i gyrchu'r weithdrefn hon neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynghylch hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r weithdrefn hon, anfonwch e-bost i quality@wrexham.ac.uk.